WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16

# Cyngor Sir Ceredigion

Cyhoeddwyd: Medi 2016
Cyfeirnod y ddogfen: 400A2016



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Colin Davies and Tim Buckle, o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Yr adroddiad hwn 4

Gwaith archwilio perfformiad 2015-16 5

Mae'r Cygnor wedi rheoli ei gyllid yn dda ac yn gwneud cynnydd da mewn nifer o feysydd; ond mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol yn ddigon cadarn i ymateb i'r heriau sylweddol yn y dyfodol 6

Argymhellion 7

Adroddiad manwl

**Perfformiad**
Mae'r cyngor yn gwneud cynnydd da o ran datblygu nifer o agweddau ar ei ddarpariaeth o ofal cymdeithasol, ac o ran gwella mynediad at dai a darparu tai mwy fforddiadwy 9

**Y defnydd o adnoddau**
Bu gan y Cyngor ddull darbodus o reoli ei gyllid ond gallai wella cydnerthedd ariannol trwy alinio cynllunio ariannol tymor canolig a threfniadau cynllunio corfforaethol 13

**Llywodraethu**
Mae'r cyngor yn gwella agweddau ar ei drefniadau llywodraethu ac wedi ymateb i'n cynigion blaenorol ar gyfer gwelliant mewn nifer o feysydd; ond caiff trefniadau llywodraethu eu gwanhau gan ddiffyg eglurder ynghylch targedau arbedion penodol ar gyfer blynyddoedd y dyfodol, a threfniadau ar gyfer monitro effaith cynigion arbedion 14

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 17

Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol 18

Atodiad 3 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2015-16 20

# Adroddiad cryno

## Yr adroddiad hwn

1 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a gyflawnwyd yng Nghyngor Sir Ceredigion (y Cyngor) ers i'r adroddiad diwethaf o'r fath gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2015. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol o adroddiadau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol', sef: Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); a Chomisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd). Serch hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn y Cyngor.

2 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2015-16, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi, yn yr adroddiad hwn, a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2016-17.

3 Ni ddylid ystyried bod y datganiad hwn yn rhoi barn bendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

4 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom at info@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom at 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Gwaith archwilio perfformiad 2015-16

5 Wrth ddarganfod cwmpas y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, ystyriwyd maint y wybodaeth a gasglwyd o archwiliadau ac arolygiadau, yn ogystal â ffynonellau gwybodaeth eraill a oedd ar gael, gan gynnwys mecanweithiau'r Cyngor ei hun ar gyfer adolygu a gwerthuso. Cynhaliwyd gwaith asesu gwelliant gennym ar gyfer 2015-16 o dan dair thema: defnydd o adnoddau; llywodraethu a pherfformiad.

6 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys gwaith y 'rheoleiddwyr perthnasol', isod:

| Enw'r prosiect | Disgrifiad byr |
|---|---|
| **Swyddfa Archwilio Cymru:** Defnydd o Adnoddau: Asesiad Cydnerthedd Ariannol | Adolygiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a sut mae'n cyllidebu ac yn cyflawni arbedion gofynnol. |
| **Swyddfa Archwilio Cymru:** Adolygiad Llywodraethu o ddull y Cyngor o gyfathrebu ac ymgysylltu â dinasyddion | Adolygiad o ddull y Cyngor o gynllunio a chyflawni ymgysylltiad a chyfathrebiad â dinasyddion, a dull y Cyngor o ddadansoddi a gweithredu ar ganlyniadau ei weithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu. |
| **Swyddfa Archwilio Cymru:** Adolygiad Llywodraethu o'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau gweddnewid ac effeithlonrwydd | Adolygiad o'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith i gefnogi datblygiad a darpariaeth Cynllun Strategol y Cyngor, ac i fonitro ei weithrediad a'i effaith. |
| **Swyddfa Archwilio** Cymru: Adolygiad Rheoli Perfformiad o fynediad at dai a thai fforddiadwy | Adolygiad o gynnydd a dilysiad o asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2014-15 o ran Amcan Gwella'r Cyngor o '**Wella mynediad at dai a'r ddarpariaeth o dai mwy fforddiadwy**'. |
| **Swyddfa Archwilio Cymru:** Archwiliad 'Cynllun Gwella' Blynyddol | Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella. |
| **Swyddfa Archwilio Cymru:** Archwiliad o 'Asesiad o Berfformiad' Blynyddol' | Adolygiad o asesiad perfformiad cyhoeddedig y Cyngor. |
| **Swyddfa Archwilio Cymru:** Gwaith dilynol | Gwneud gwaith dilynol ar gynnydd o ran mynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella o adolygiad blaenorol o drefniadau'r Cyngor i gefnogi'r gwaith o ddiogelu plant. |

| Enw’r prosiect | Disgrifiad byr |
|---|---|
| **Swyddfa Archwilio Cymru:** Gwaith dilynol | Gwneud gwaith dilynol ar gynnydd o ran mynd i’r afael â chynigion ar gyfer gwella o adolygiadau blaenorol o Reolaeth Technoleg a Gwybodaeth |
| **Estyn:** Dadansoddiad bwrdd gwaith | Trosolwg o ddangosyddion perfformiad addysg allweddol wedi ei baratoi gan Estyn. |
| **AGGCC:** Adolygiad o berfformiad yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2014-15 | Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor ar gyfer 2014-15. |
| **Y Comisiynydd:** Adolygiad o Gynllun Iaith Gymraeg y Cyngor | Asesiad o effeithiolrwydd y Cynllun darparu gwasanaethau Cyngor i aelodau’r cyhoedd y mae’n well ganddynt gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg. |

## Mae’r Cyngor wedi rheoli ei gyllid yn dda ac yn gwneud cynnydd da mewn nifer o feysydd; ond mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol yn ddigon cadarn i ymateb i’r heriau sylweddol yn y dyfodol

7 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac wedi’i gyfyngu i’r gwaith hwnnw, mae’r Archwilydd Cyffredinol o’r farn bod y Cyngor y debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur yn ystod 2016-17.

8 Mae’r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae’r cyngor yn gwneud cynnydd da o ran datblygu nifer o agweddau ar ei ddarpariaeth o ofal cymdeithasol, ac o ran gwella mynediad at dai a darparu tai mwy fforddiadwy;
- bu gan y Cyngor ddull darbodus o reoli ei gyllid ond gallai wella cydnerthedd ariannol trwy alinio cynllunio ariannol tymor canolig a threfniadau cynllunio corfforaethol; ac
- mae’n gwella agweddau ar ei drefniadau llywodraethu ac wedi ymateb i’n cynigion blaenorol ar gyfer gwelliant mewn nifer o feysydd; ond caiff trefniadau llywodraethu eu gwanhau gan ddiffyg eglurder ynghylch targedau arbedion penodol ar gyfer blynyddoedd y dyfodol, a threfniadau ar gyfer monitro effaith cynigion arbedion.

9 Yn ystod 2016-17, bydd y Cyngor yn parhau i wynebu'r heriau sy'n gysylltiedig â phwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus yn erbyn cefndir o newid deddfwriaethol a galw cynyddol am rai gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi lleihau ei allu rheoli yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf a bydd angen iddo reoli'r adnoddau sydd ar gael iddo'n ofalus er mwyn ymateb yn effeithiol i'r heriau sydd o'i flaen.

## Argymhellion

10 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

11 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol i'r Cyngor. Fodd bynnag, ceir materion â llai o flaenoriaeth, a elwir yn gynigion ar gyfer gwella, yn ein hadroddiadau eraill i'r Cyngor a gellir cyfeirio atynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Mae hefyd yn gwneud argymhellion a allai fod yn berthnasol i'r Cyngor yn ei Adroddiadau Llywodraeth Leol Cenedlaethol. Ceir rhestr o'r argymhellion yn yr adroddiadau hynny yn 2015-16 yn Atodiad 3. Byddwn yn parhau i fonitro cynigion ar gyfer gwella yn ystod ein gwaith asesu gwelliant.

12 Hefyd, cafodd meysydd i'w gwella eu cynnwys gan AGGCC a'r Comisiynydd yn eu hadolygiadau arolygu hwy a llythyrau a anfonwyd i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain ar gael yn www.aggcc.org.uk a www.comisiynyddygymraeg.org.

13 Ni chyflwynwyd unrhyw adroddiadau arolygu i'r Cyngor gan Estyn yn ystod 2015-16.

# Adroddiad manwl



# Perfformiad

## Mae'r cyngor yn gwneud cynnydd da o ran datblygu nifer o agweddau ar ei ddarpariaeth o ofal cymdeithasol, ac o ran gwella mynediad at dai a darparu tai mwy fforddiadwy

### Gwerthusiad Estyn o berfformiad ysgolion yng Ngheredigion

14 Mae cyfran y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yng Ngheredigion yn llawer is na chyfartaledd Cymru. Cymerir hyn i ystyriaeth wrth werthuso perfformiad yn yr awdurdod.

15 Mae perfformiad yn nangosydd y Cyfnod Sylfaen[1] wedi gwella, ac roedd y gorau yng Nghymru yn 2015. Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr awdurdod yn y dangosydd pynciau craidd[2] wedi gwella dros y pum mlynedd diwethaf, er i hynny ddigwydd yn arafach na chyfartaledd Cymru. Yn 2015, mae perfformiad yn y dangosydd hwn rhyw fymryn yn waeth nag y mae mewn awdurdodau tebyg.

16 Mae'r duedd o welliant i berfformiad yng nghyfnod allweddol 3 dros y pum mlynedd diwethaf wedi parhau yn 2015, ac mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd yn unol â'r dangosydd pynciau craidd yn cyd-fynd â pherfformiad mewn awdurdodau tebyg.

17 Mae perfformiad ar y trothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg[3] yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod fwy neu lai yr un fath dros y tair blynedd diwethaf. Yn dilyn tueddiad o welliant yn ystod y tair blynedd flaenorol, bu mân-ostyngiad i'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn 2015. Yn 2015, mae perfformiad yn y ddau ddangosydd yn is na'r meincnod a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

18 Mae cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi gwella dros y pum mlynedd diwethaf. Yn 2015, mae presenoldeb yn well nag yn y mwyafrif o awdurdodau tebyg. Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn cyd-fynd yn gyffredinol â lefelau mewn awdurdodau tebyg.

19 Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yng Ngheredigion wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf ar gyfer y prif ddangosyddion[4] ym mhob cyfnod, ac mae'r disgyblion yn perfformio'n well yn gyffredinol na disgyblion tebyg mewn Awdurdodau eraill yng Nghymru.

1 Mae **dangosydd y Cyfnod Sylfaen** yn cyfeirio at ganran y disgyblion sy'n sicrhau'r perfformiad disgwyliedig (lefel canlyniad 5) mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen: llythrennedd, iaith a chyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith gyntaf; datblygiad mathemategol; a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.
2 Mae'r **dangosydd pynciau craidd** yn cyfeirio at ganran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel a ddisgwylir ohonynt ym mhynciau mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith gyntaf. Mae hyn yn cyfateb i lefel 4 neu uwch yng nghyfnod allweddol 2 a lefel 5 neu uwch yng nghyfnod allweddol 3.
3 **Mae'r dangosydd lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg** yn cynrychioli cyfanswm dysgu sy'n cyfateb i bum cymhwyster TGAU â graddau A* i C gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg.
4 Pan fo'r testun yn cyfeirio at 'brif ddangosyddion', yng nghyfnod allweddol 4, byddai hyn yn cynnwys y dangosydd lefel 1 (cyfanswm dysgu sy'n cyfateb i bum cymhwyster TGAU graddau A* i G), y dangosydd lefel 2 (cyfanswm dysgu sy'n cyfateb i bum cymhwyster TGAU graddau A* i C), a chanran y disgyblion sy'n ennill pum cymhwyster TGAU graddau A* i A, yn ogystal â'r dangosydd pynciau craidd a'r dangosydd lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg. Dangosydd y Cyfnod Sylfaen a'r dangosyddion pynciau craidd ar gyfer cyfnodau allweddol 2 a 3 yw'r 'prif ddangosyddion' cyn cyfnod allweddol 4. Mae'r dangosyddion perfformiad ar gyfer cyfnodau allweddol 2 a 3 y Cyfnod Sylfaen yn seiliedig ar asesiad athro/athrawes. Mae'r dangosyddion perfformiad ar gyfer cyfnod allweddol 4 yn seiliedig ar gymwysterau a ddilysir yn allanol, fel cymwysterau TGAU.

## Mae'r cyngor yn gwneud cynnydd da o ran datblygu nifer o agweddau ar ei ddarpariaeth o ofal cymdeithasol, gan ei roi mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau sylweddol yn y dyfodol

20 Cyhoeddodd AGGCC ei Hadolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014/15 ym mis Hydref 2015 ac mae hwn ar gael ei gwefan. Adroddodd AGGCC bod yr effaith gadarnhaol o weithio mewn cyfarwyddiaeth ehangach yn galluogi gofal cymdeithasol i gysylltu'n fwy effeithiol â thai ac adrannau eraill. Cefnogir hyn trwy gyfarfodydd penaethiaid gwasanaeth sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth ehangach o fewn y Cyngor o'i gyfrifoldeb corfforaethol o ran diwallu anghenion plant ac oedolion agored i niwed. Un her allweddol i'r Cyngor yn y dyfodol yw'r berthynas waith gyda'r adran Iechyd a'i hailstrwythuro ac ail-ganolbwyntio ei hun. Mae effaith hyn ar allu parhaus y Cyngor i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn fwy effeithiol a fforddiadwy yn sylweddol.

21 Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol wedi ei hyfforddi, ei oruchwylio a'i werthfawrogi'n dda. Er bod heriau, mae ymrwymiad y staff yn eglur iawn a chydnabyddir, er bod angen mwy o ddatblygiad, bod y ddarpariaeth o wasanaethau craidd yn dal i fod yn gadarn.

22 Ar adeg o gyni cyllidol, mae'r llwyddiannau yn y gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn yn werth eu nodi. Mae gwasanaethau i oedolion wedi cael cymorth ariannol gan y Cyngor ar gyfer achosion busnes anabledd dysgu, pontio a diogelu oedolion. Rhoddwyd cyllid ychwanegol i'r gwasanaeth i weddnewid ei wasanaethau i bobl hŷn er mwyn helpu i sicrhau ei fod yn gynaliadwy, o gofio demograffeg anodd Ceredigion. Cafodd rheoli ceisiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a datblygiad sicrhau ansawdd eu cynnwys yn y cyllid ychwanegol hwn. Bydd y meysydd gwaith hyn yn cael eu datblygu yn 2015-16 nawr.

23 Gwnaed cynnydd da yn y gwasanaethau comisiynu o ran datblygu'r farchnad gofal cartref.

24 Yn y gwasanaethau i blant, mae datblygiad eu gwasanaethau a modelau ymyrraeth ac atal cynnar wedi sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a theuluoedd.

25 Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod yn cyrraedd yr hyn y mae'n ei ddisgrifio fel adeg dyngedfennol. Gan fod angen torri cyllidebau yn ychwanegol i'r £25 miliwn a dorrwyd eisoes yn ystod y blynyddoedd diwethaf a £25 miliwn arall o arbedion rhagamcanol yn ofynnol dros y tair blynedd nesaf, mae'n codi cwestiynau am gynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol.

26 Ni ellir gorbwysleisio effaith gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar lefel y Cyngor a rhanbarthol, ynghyd â'r heriau a ddaw yn sgil yr ad-drefniant o lywodraeth leol sydd ar fin digwydd. Er gwaethaf hyn, mae'r gwaith a gychwynnwyd eisoes o ran gweddnewidiad y Cyngor o wasanaethau i bobl hŷn, ei integreiddiad â'r adran Iechyd, ei wasanaeth diogelu a ail-fodelwyd, a llwyddiant ei wasanaethau ymyrraeth ac atal cynnar yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa dda.

## Cyflawnodd y Cyngor ei ddyletswyddau cynllunio ac adrodd ar welliant o dan y Mesur

27 Ym mis Mehefin 2015, cyflawnodd y Cyngor ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant trwy gyhoeddi ei Gynllun Gwella: Amcanion Gwella ac, ym mis Hydref 2015, cyflawnodd y Cyngor ei ddyletswyddau adrodd ar berfformiad trwy gyhoeddi ei Gynllun Gwella: Perfformiad. Yn dilyn ein Harchwiliadau o'r dogfennau hyn, cyhoeddwyd tystysgrifau gennym ym mis Gorffennaf 2015 ac ym mis Tachwedd 2015 yn nodi ein safbwynt bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau cynllunio ac adrodd ar welliant.

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran gwella mynediad at dai a darparu tai mwy o dai fforddiadwy, ond byddai meincnodi rheolaidd yn helpu'r Cyngor i werthuso ei berfformiad yn well a nodi cyfleoedd i wella

28 Ar gyfer 2014-15, un o'r pum amcan gwella a nodwyd gan y Cyngor oedd i '**Gwella mynediad i dai a mwy o dai fforddiadwy.**' Dywedodd y Cyngor yn ei Gynllun Gwella ar gyfer 2014-15 y: '**Cydnabyddir bod Ceredigion yn ardal sydd â chostau prynu a rhentu tai uchel iawn. Ynghyd ag incwm y cartref gweddol isel mae'n golygu bod diffyg dybryd o dai fforddiadwy yn y Sir. Mae darparu tai fforddiadwy wedi cael ei nodi fel blaenoriaeth i'r Sir yn y Cynllun Integredig Sengl, Ceredigion i Bawb.**'[5] Roedd asesiad y Cyngor ei hun o'i gynnydd o ran bodloni'r amcan gwella hwn yn ystod 2014-15 yn rhagorol.

29 To provide assurance that the Council is making progress towards its improvement objective and is delivering improved outcomes for citizens, we reviewed the Council's progress over 2014-15. The review asked the question: '**Is the Council making progress on its planned improvements?**' We concluded that the Council is making good progress in improving access to housing and delivering more affordable housing but regular benchmarking would help the Council to better evaluate its performance and identify opportunities for improvement. This is because the the Council has clearly articulated its ambition to improve access to housing and is improving its understanding of housing needs within the County. The Council is making good progress against its own targets. However, the Council does not undertake regular benchmarking in this area with other Councils. Benchmarking could help the Council to learn from other approaches and identify opportunities for improvement, as well as strengthening the basis for the Council's own evaluation of its performance.

5 Cynllun Gwella Cyngor Sir Ceredigion: Amcanion 2014-15.

## Gwerthusiad Comisiynydd y Gymraeg o berfformiad Cyngor Sir Ceredigion

30 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau i rym drwy is-ddeddfwriaeth ar 31 Mawrth 2015. Bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd y pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

31 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o'u rhoi ar waith. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor yn ymrwymedig i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth roi'r cynllun iaith ar waith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen.

32 Mae adroddiadau arolygu'r Comisiynydd a llythyrau a gyflwynwyd i'r Cyngor ar gael ar wefan y Comisiynydd.

# Y defnydd o adnoddau

## Bu gan y Cyngor ddull darbodus o reoli ei gyllid ond gallai wella cydnerthedd ariannol trwy alinio cynllunio ariannol tymor canolig a threfniadau cynllunio corfforaethol

33 Cynhaliwyd asesiad o gydnerthedd ariannol y Cyngor gennym yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Ionawr 2016. Roedd pwyslais y gwaith ar gyflawni cynlluniau arbedion 2014-15, a chyfnod cynllunio ariannol 2015-16. Ystyriwyd gennym a oes gan y Cyngor drefniadau priodol i gynllunio i sicrhau a chynnal ei gydnerthedd ariannol yn y tymor canolig (tair i bum mlynedd i'r dyfodol yn nodweddiadol). Canfuwyd gennym fod gan y Cyngor hanes o reoli ei gyllid yn ddarbodus, ond nid yw ei gynlluniau rheoli ariannol tymor canolig wedi eu datblygu'n ddigonol i roi sicrwydd y bydd yn sicrhau maint yr arbedion sydd eu hangen yn y dyfodol ar y cyflymder gofynnol. Hefyd, er bod gan y Cyngor fframwaith eglur ar gyfer rheoli ei faterion ariannol, mae wedi nodi angen i gryfhau trefniadau ar gyfer rhoi sylw i orwario mewn meysydd gwasanaeth. Canfuwyd gennym hefyd bod y Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau monitro ariannol yn ystod y flwyddyn, ond ceir cyfleoedd i gryfhau trefniadau monitro ariannol tymor canolig. Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i ddatblygu ei drefniadau ac mae'n gweithio i'w gwella, byddwn yn adolygu'r cynnydd yn y maes hwn yn ystod 2016-17 fel rhan o'n asesiad gydnerthedd ariannol.

### Archwiliad o gyfrifon y Cyngor

34 Ar 30 Tachwedd 2015 cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Mae'r llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 2 o'r adroddiad hwn..

# Llywodraethu

## Mae'r cyngor yn gwella agweddau ar ei drefniadau llywodraethu ac wedi ymateb i'n cynigion blaenorol ar gyfer gwelliant mewn nifer o feysydd; ond caiff trefniadau llywodraethu eu gwanhau gan ddiffyg eglurder ynghylch targedau arbedion penodol ar gyfer blynyddoedd y dyfodol, a threfniadau ar gyfer monitro effaith cynigion arbedion

### Mae'r Cyngor yn gwella'r ffordd y mae'n ymgysylltu a chyfathrebu â dinasyddion, a cheir rhai enghreifftiau lle mae safbwyntiau dinasyddion wedi helpu i lunio gweithgareddau'r Cyngor, ond nid yw trefniadau corfforaethol ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd ymgynghori ac ymgysylltu wedi eu datblygu'n ddigonol

35 Adolygwyd dull y Cyngor o gyfathrebu ac ymgysylltu â dinasyddion gennym ym mis Gorffennaf 2015, yn rhan o'n gwaith asesu gwelliant. Canfuwyd gennym fod y Cyngor yn cryfhau ei allu i gyfathrebu ac ymgysylltu â dinasyddion, a'i fod yn gwella ei drefniadau ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu â dinasyddion. Fodd bynnag, canfuwyd gennym hefyd nad yw'r Cyngor wedi cymryd camau eto roi sylw i wendidau a nodwyd yn flaenorol yng ngweithrediad a chyfansoddiad ei Banel Dinasyddion, ac er bod y Cyngor yn monitro effeithiolrwydd ei weithgareddau cyfathrebu, nid oes ganddo drefniadau corfforaethol cadarn ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu.

### Mae'r Cyngor wedi datblygu Cynllun Strategol yn ddiweddar i'w helpu i ymateb i'r heriau ariannol y mae'n eu hwynebu, ond mae trefniadau llywodraethu i'w ddarparu a'i fonitro wedi eu gwanhau gan ddiffyg eglurder ynghylch targedau arbedion penodol ar gyfer blynyddoedd y dyfodol, a threfniadau ar gyfer monitro effaith cynigion arbedion

36 Yn ein Hadolygiad Gwella Blynyddol i'r Cyngor a gyhoeddwyd ym mis Medi 2014, a oedd hefyd yn cynnwys adroddiad Asesiad Corfforaethol 2014, gwnaethpwyd Cynnig ar gyfer Gwella gennym y dylai'r Cyngor ddatblygu Cynllun Strategol sy'n cyflwyno gweledigaeth eglur ar gyfer darpariaeth ei wasanaethau yn y dyfodol yn unol â'r cyfyngiadau ariannol y mae'n eu hwynebu dros y tymor canolig. Ym mis Medi 2015, cynhaliwyd adolygiad gennym o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer sicrhau gweddnewid ac effeithlonrwydd, ac archwiliwyd cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r cynnig ar gyfer gwella hwn yn rhan o'r adolygiad hwn.

37 Canfuwyd gennym fod y Cyngor wedi cryfhau ei ganolbwynt a'i arweinyddiaeth gorfforaethol ar weddnewid ac effeithlonrwydd, ond mae gwendidau yn ei gynlluniau yn cyfyngu ar effeithiolrwydd ei drefniadau i fonitro a gwerthuso cynnydd o ran bodloni ei flaenoriaethau gan leihau costau. Er bod swyddogaethau a chyfrifoldebau ar gyfer cyflawni gweddnewid ac effeithlonrwydd wedi'u diffinio a'u deall yn dda yn gyffredinol, canfuwyd gennym hefyd bod cyfrifoldeb am fonitro effaith gweithrediad cynigion gweddnewid ac effeithlonrwydd yn aneglur. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn gwella ei drefniadau cyfathrebu ac ymgysylltu, a cheir enghreifftiau o ymgysylltiad â dinasyddion yn elfennau o agenda gweddnewid ac effeithlonrwydd y Cyngor.

## Nid yw'r Cyngor wedi rhoi sylw i bob un o'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn ein hadroddiad blaenorol o ran ei drefniadau i gefnogi gwaith diogelu plant, ac nid yw'n gwneud cynnydd yn erbyn y rhain

38 Hysbyswyd y Cyngor am ein canfyddiadau lleol ym mis Medi 2014 yn dilyn ein hadolygiad o Drefniadau Awdurdodau Lleol i Gefnogi Gwaith Diogelu Plant. Canolbwyntiodd yr astudiaeth ar ateb y canlynol: '**A yw trefniadau llywodraethu a rheoli'r Cyngor yn rhoi sicrwydd bod plant yn cael eu diogelu?**' Gwnaed pum cynnig ar gyfer gwella i'r Cyngor wrth i ni adrodd ar ein canfyddiadau. Ym mis Chwefror 2016, adolygwyd cynnydd y Cyngor gennym o ran gweithredu'r cynigion ar gyfer gwella uchod. Gofynnwyd y cwestiwn '**A yw'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran rhoi sylw i'r cynigion ar gyfer gwella trefniadau i gefnogi'r gwaith o ddiogelu plant?**' Canfuwyd gennym fod y Cyngor wedi rhoi sylw i bob un o'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn ein hadroddiad blaenorol, neu'n gwneud cynnydd yn ei erbyn. Daethpwyd i'r casgliad hwn oherwydd:

- bod y Cyngor yn diwygio ei Bolisi Diogelu Corfforaethol;
- bod mwyafrif y Cynghorwyr wedi derbyn hyfforddiant diogelu;
- bod y Bwrdd Lleol Diogelu Plant rhanbarthol wedi cael ei sefydlu;
- bod y Cyngor wedi hysbysu'r staff pa gynghorydd sydd â'r cyfrifoldeb arweiniol am amddiffyn plant; a
- bod y Cyngor yn cryfhau ei drefniadau chwythu'r chwiban, gan gynnwys trwy ddarparu hyfforddiant i aelodau a swyddogion, a datblygu polisi Chwythu'r Chwiban diwygiedig.

## Mae'r Cyngor yn cryfhau ei ddull o ddefnyddio rheolaeth technoleg a gwybodaeth, ond mae angen iddo wneud mwy i roi sylw llawn i rai o'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella

39 Ym mis Awst 2013, adolygwyd cynnydd y Cyngor tuag at roi'r saith cynnig ar gyfer gwella a gododd o'n hadolygiad cynharach o dechnoleg ar waith. Canfuwyd gennym fod: '**Cynnydd wedi ei wneud yn erbyn bob un o'r saith cynnig ar gyfer gwella a, nawr bod yr ailstrwythuro wedi digwydd, gellir gwneud cynnydd cyflymach, a disgwylir i lawer o'r meysydd sy'n weddill fod yn gyflawn erbyn mis Rhagfyr 2013.**' Daethpwyd i'r casgliad yn 2013 bod dau o'r saith cynnig ar gyfer gwella yn 'gyflawn', roedd dau 'ar y gweill', ac roedd 'cynnydd cyfyngedig' wedi cael ei wneud o ran tri chynnig ar gyfer gwella.

40 Ym mis Awst 2013, adolygwyd cynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r saith cynnig ar gyfer gwella a ddeilliodd o'n hadolygiad cynharach o reoli gwybodaeth gennym hefyd. Canfuwyd gennym fod: '**Cynnydd wedi cael ei wneud ar yr holl gynigion ar gyfer gwella, sydd wedi cryfhau dull y Cyngor o reoli gwybodaeth; fodd bynnag, mae defnydd afreolus y Cyngor o gofion bach heb eu hamgryptio yn parhau i beri pryder**.' Daethpwyd i'r casgliad yn 2013 bod dau o'r saith cynnig ar gyfer gwella yn 'gyflawn', roedd pedwar 'ar y gweill', ac roedd 'cynnydd cyfyngedig' wedi cael ei wneud o ran un cynnig ar gyfer gwella.

41 Ym mis Mawrth 2016, adolygwyd cynnydd y Cyngor gennym ymhellach o ran gweithredu'r cynigion ar gyfer gwella a ddeilliodd o'r adolygiadau o reolaeth technoleg a gwybodaeth yr oedd o'r farn eu bod yn anghyflawn yn ein gwaith dilynol yn 2013. Canfuwyd gennym fod '**y Cyngor yn cryfhau ei ddull o ddefnyddio rheolaeth technoleg a gwybodaeth, ond mae angen iddo wneud mwy i roi sylw llawn i'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella.**' Daethpwyd i'r casgliad hwn oherwydd:

- bod y Cyngor wedi mabwysiadu Strategaeth TGCh gyffredinol sy'n cysylltu â'i flaenoriaethau Corfforaethol;
- bod un tîm TGCh yn rhoi'r gallu i gefnogi prosiectau corfforaethol a'r ddarpariaeth o wasanaethau;
- nad yw'r Cyngor yn casglu gwybodaeth cwsmeriaid yn gyson ac fel mater o drefn eto, nac yn marchnata gwahanol gyfleoedd i fanteisio ar wasanaethau yn rhagweithiol ac yn gyson;
- bod y Cyngor yn gwella ei drefniadau rheoli perfformiad ar gyfer TGCh, ond ceir potensial i nodi dangosyddion perfformiad lleol i gryfhau trefniadau ymhellach;
- bod Strategaeth TGCh pum mlynedd y Cyngor (2013-17) yn cyflwyno ei weledigaeth hirdymor ar gyfer Rheoli Gwybodaeth;
- bod y Cyngor wedi dysgu gwersi o rai prosiectau newid graddfa fawr blaenorol, a'i fod yn cryfhau ei allu rheoli prosiect;
- bod y Cyngor wedi cryfhau ei fesurau rheoli a'i weithdrefnau o ran diogelwch gwybodaeth;
- bod y Cyngor yn gwella ei ddull o reoli gwybodaeth electronig yn hirdymor; a
- bod y Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau ar gyfer ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, ond nad yw'n ymateb i bob cais o'r fath yn unol ag amserlenni statudol o hyd.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Yr Arweinydd
Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA

Annwyl Gynghorydd Ellen ap Gwyn

**Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Sir Ceredigion 2014-15**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd Cyngor Sir Ceredigion â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adrodd ariannol a'r defnydd o adnoddau.**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion ac i sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu a chadw dan adolygiad trefniadau priodol i sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- gynnig barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- chyflwyno tystysgrif yn cadarnhau fy mod i wedi cwblhau archwiliad o'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cod hwn wedi'i seilio ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 29 Medi 2015, cyflwynais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno safbwynt cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi ei gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Adroddwyd y materion allweddol yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn yr adroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 17 Medi 2015, a bydd adroddiad mwy manwl yn dilyn maes o law.

**Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau**

Seiliwyd fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon, yn ogystal â dibyniaeth ar y gwaith a gwblhawyd yn rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn amlygu meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi cael ei ddangos eto, neu lle gellid gwneud gwelliannau.

**Cyflwynais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi cael ei gwblhau ar 29 Medi 2015.**

**Nid yw fy ngwaith hyd yn hyn ar ardystio hawliadau a dychweliadau grant wedi nodi problemau arwyddocaol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon neu systemau ariannol allweddol 2015-16**

Bydd adroddiad mwy manwl ar fy ngwaith ardystio grantiau yn dilyn ym mis Chwefror 2016 pan fydd rhaglen gwaith ardystio eleni yn gyflawn.

Disgwylir ar hyn o bryd i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2014-15 gyd-fynd â'r ffi a gytunwyd yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol, ac eithrio ffi ychwanegol i'w godi yng nghyswllt yr archwiliad ariannol o'r cyfrifon Harbwr. Hon oedd y flwyddyn gyntaf iddi fod yn ofynnol i ni gynnal archwiliad ariannol o'r cyfrifon Harbwr. Rydym yn amcangyfrif mai £3,110 fydd y ffi hon.

Yn gywir

**John Golding**
I ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Atodiad 3 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2015-16

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ebrill 2015 | Y cydnerthedd ariannol mewn cynghorau | A1 Dylai cynghorau sicrhau bod eu cynllun corfforaethol:<br>• wrth wraidd y broses o lywio cynlluniau gwasanaeth a strategaethau ategol eraill gan gynnwys y gweithlu, technoleg gwybodaeth a gwariant cyfalaf;<br>• yn cynnal blaenolwg tair i bum mlynedd o leiaf a'i fod yn unol â'r cynllun ariannol tymor canolig a strategaethau ategol eraill; a<br>• dylai nodi'n glir rôl ddymunol y cyngor mewn pum mlynedd – y model ar gyfer darparu gwasanaethau â blaenoriaeth a'r seilwaith a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni blaenoriaethau yn y dyfodol o fewn y cyllid sydd ar gael.<br>A2 Dylai'r cynllun ariannol tymor canolig nodi'r prif risgiau ariannol a thybiaethau allweddol a dylai uwch swyddogion a chynghorwyr graffu arnynt a'u herio'n effeithiol cyn mabwysiadu'r cynllun.<br>A3 Mae angen i gynghorau sicrhau bod diffygion ariannol yn cael eu rhagamcanu'n gywir a'u cysoni'n llawn â chynlluniau arbed manwl ar gyfer pob blwyddyn o oes y cynllun ariannol tymor canolig.<br>A4 Dylai cynghorau adolygu digonolrwydd y trefniadau sicrwydd ariannol sy'n sail i gyflawni cynlluniau arbed blynyddol, gan gynnwys lefel y gwaith craffu a herio a gynigir gan gynghorwyr.<br>A5 Dylai cynghorau sicrhau bod ganddynt strategaeth cronfeydd gynhwysfawr sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy cronedig fel rhan o'u Cynllun Ariannol Tymor Canolig.<br>A6 Dylai cynghorau ddatblygu polisïau cwbl gorfforaethol ar gynhyrchu incwm gyda'r nod o gynyddu ffrydiau refeniw a lleihau pwysau ariannol.<br>A7 Dylai cynghorau:<br>• atgyfnerthu trefniadau pennu a monitro cyllidebau er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol; ac<br>• adolygu cwmpas ac effeithiolrwydd eu systemau a'u rheolaethau ariannol mewnol ac allanol er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn rhoi rhybudd cynnar am wendidau mewn systemau allweddol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ebrill 2015 | Y cydnerthedd ariannol mewn cynghorau | A8 Rhaid i gynghorau adolygu eu timau cyllid a sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau a gallu i fodloni gofynion yn y dyfodol.<br>A9 Mae angen i swyddogion cynghorau sicrhau bod gan gynghorwyr y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni gwaith llywodraethu a herio effeithiol drwy ymestyn cyfleoedd hyfforddi a llunio gwybodaeth reoli o ansawdd uchel. |
| Mehefin 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A1 Egluro natur a gweithrediad y consortia. Nodwyd gennym fod ansicrwydd parhaus ynglŷn â rhai agweddau ar natur consortia rhanbarthol a'u cwmpas nawr ac yn y dyfodol (paragraffau 2.2 i 2.20). Felly, rydym yn argymell y canlynol:<br>• Dylai awdurdodau lleol egluro a yw gwasanaethau consortia i'w darparu ar y cyd neu a ydynt yn wasanaethau a gomisiynir (mae gwasanaethau a ddarperir dan drefniadau cydbwyllgor yn wasanaethau a ddarperir ar y cyd ac nid yn wasanaethau a gomisiynir).<br>A2 Canolbwyntio ar ddeilliannau trwy gynllunio tymor canolig.<br>Nodwyd gennym fod pwyslais ar gamau byrdymor ac ansicrwydd ynglŷn â dyfodol consortia yn amharu ar ddatblygiad effeithiol y consortia rhanbarthol (paragraffau 2.33 i 2.36; 3.16 i 3.17). Rydym yn argymell felly:<br>• Gan na fydd unrhyw weithgareddau posibl i ad-drefnu awdurdodau lleol yn cael eu gweithredu'n llawn tan 2020, y dylai Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol ddatblygu cynlluniau tair blynedd ar gyfer datblygu, ehangu cwmpas a chyllido consortia rhanbarthol, yn gysylltiedig ag amcanion strategol priodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
| --- | --- | --- |
| Gorffennaf 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A3 Datblygu mwy o gydberthnasau cydweithredol ar gyfer y system gwella ysgolion. Roedd llawer o bartneriaid gwella ysgolion yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol ond canfuwyd nad oedd hyn wedi arwain at feithrin perthnasau digon cydweithredol (paragraffau 2.25 i 2.32). Rydym yn argymell felly y:<br>• Dylai consortia rhanbarthol ddatblygu trefniadau gwell ar gyfer rhannu arferion a chefnogi effeithlonrwydd (er enghraifft, gallai un consortiwm arwain y gwaith o ymdrin â phroblem neu fod â chyfrifoldeb swyddogaethol ar gyfer datblygu polisi).<br>• Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gydnabod bod yr holl bartneriaid yn ddibynnol ar ei gilydd er mwyn cyflawni eu swyddogaethau gwella ysgolion a chytuno ar ddull o:<br>– rannu gwybodaeth ac ymgynghori ar ddatblygiadau sy'n berthnasol i wella ysgolion;<br>– datblygu perthnasau cydweithredol sy'n rhannu atebolrwydd; a<br>– chynnal adolygiadau o'r system gyfan ac alinio dealltwriaeth a safbwynt y consortia rhanbarthol ar draws pob un o strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru.<br>A4 Datblygu arweinwyr effeithiol a denu'r unigolion mwyaf dawnus. Mae consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wedi cael anawsterau wrth recriwtio uwch arweinwyr addysg a chanfuwyd mai ychydig iawn o gamau a oedd wedi eu cymryd i ymdrin â hyn (paragraffau 2.37 i 2.40). Rydym yn argymell felly:<br>• y dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio i wneud swyddi addysg arweiniol yn fwy deniadol er mwyn denu'r arweinwyr mwyaf dawnus ar gyfer y system gwella addysg; ac<br>• y dylai awdurdodau lleol gydweithio i gefnogi datblygiad proffesiynol yr uwch arweinwyr a sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad ar waith ar gyfer uwch arweinwyr. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Mehefin 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A5 Gwella effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli consortia rhanbarthol. Er bod datblygiadau parhaus yn cael eu gwneud, canfuwyd nad yw consortia rhanbarthol wedi datblygu trefniadau llywodraethu a rheoli cyllid cwbl effeithiol hyd yn hyn (paragraffau 3.2 i 3.36). Rydym yn argymell felly y dylai awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol:<br>• wella eu defnydd o hunanwerthuso ar gyfer eu perfformiad a'u trefniadau llywodraethu a'i ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o gynllunio busnes ac i gefnogi adolygiadau blynyddol o ddulliau llywodraethu er mwyn llywio eu datganiadau llywodraethu blynyddol;<br>• gwella eu dulliau rheoli perfformiad gan gynnwys cynllunio busnes yn well, defnyddio mesurau perfformiad eglur a mesuradwy ac asesu gwerth am arian;<br>• sicrhau bod rheoli risg strategol yn rhan annatod o'u trefniadau llywodraethu a chyflwyno adroddiadau'n rheolaidd ar lefel y cydbwyllgor neu'r bwrdd;<br>• datblygu eu trefniadau rheoli ariannol i sicrhau bod prosesau cyllidebu, monitro ac adrodd ariannol yn cwmpasu'r holl incwm a gwariant perthnasol, gan gynnwys cyllid grant a wariwyd trwy awdurdodau lleol;<br>• datblygu trefniadau craffu ar y cyd ar gyfer y consortia yn gyffredinol yn ogystal â chraffu ar berfformiad gan awdurdodau unigol, a allai gynnwys sefydlu cydbwyllgor craffu neu waith cydgysylltiedig gan bwyllgorau craffu awdurdodau lleol;<br>• sicrhau bod y trefniadau a'r penderfyniadau y mae consortia yn eu gwneud yn agored ac yn dryloyw;<br>• cydnabod ac ymdrin ag unrhyw wrthdaro buddiannau posibl; a phan fo gan staff fwy nag un cyflogwr, dylai consortia rhanbarthol sicrhau bod y llinellau atebolrwydd yn eglur a bod yr holl staff yn ymwybodol o'r swyddogaethau a gyflawnir; a<br>• datblygu strategaethau cyfathrebu cadarn ar gyfer ymgysylltu â'r holl randdeiliaid allweddol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
| --- | --- | --- |
| Gorffennaf 2015 | Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru | A1 Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod:<br>• penodi uwch swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;<br>• penodi aelod arweiniol dros ddiogelu; a<br>• dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid.<br>A2 Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy'n cynnwys holl wasanaethau'r Cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y Cyngor.<br>A3 Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy:<br>• sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chydymffurfio â pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant;<br>• creu system cydymffurfiaeth gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfiaeth o ran gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; a<br>• mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y Cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth.<br>A4 Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:<br>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y Cyngor a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;<br>• creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth a'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r Cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a<br>• mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y Cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Gorffennaf 2015 | Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru | A5 Wrth adolygu canllawiau, dylai Llywodraeth Cymru egluro'r hyn mae'n disgwyl o awdurdodau lleol ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau'r swyddog dynodedig mewn gwasanaethau addysg, a'r unigolyn a enwwyd ar lefel uwch reolwr sy'n gyfrifol am hybu diogelu.<br>A6 Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y Cyngor ynglŷn â'r canlynol:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor.<br>A7 Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r Cyngor.<br>A8 Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y Cyngor. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2015 | Helpu Pobl Hyn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? | A1 Gwella llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol yng nghyswllt materion pobl hŷn drwy:<br>• benodi uwch swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am gydgysylltu ac arwain gwaith y Cyngor ar wasanaethau i bobl hŷn;<br>• ailalinio gwaith cydgysylltwyr y strategaethau pobl hŷn er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni cynlluniau ar gyfer gwasanaethau sy'n cyfrannu at annibyniaeth pobl hŷn;<br>• penodi aelod yn hyrwyddwr gwasanaethau pobl hŷn; a<br>• diweddaru gwybodaeth am y penodiadau hyn yn rheolaidd, a rhannu'r wybodaeth honno'n rheolaidd â'r holl staff a rhanddeiliaid.<br><br>A2 Gwella'r gwaith cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch gwasanaethaui bobl hŷn yn well drwy:<br>• sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n trafod gwaith holl adrannau perthnasol y Cyngor a gwaith rhanddeiliaid allanol y tu allan i iechyd a gofal cymdeithasol; ac<br>• ymgysylltu â phreswylwyr a phartneriaid wrth ddatblygu cynlluniau, ac wrth ddatblygu a chytuno ar flaenoriaethau.<br><br>A3 Gwella'r ymgysylltu â gwybodaeth i bobl hŷn a'r trefniadau ar gyfer lledaenu'r wybodaeth honno, drwy sicrhau bod gwasanaethau cyngor a gwybodaeth wedi'u cyflunio'n briodol ac yn bodloni anghenion y sawl sy'n eu derbyn.<br><br>A4 Sicrhau rheolaeth effeithiol ar berfformiad yr ystod o wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol drwy:<br>• bennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i farnu ynghylch cynnydd wrth gyflawni camau gweithredu yn holl wasanaethau'r Cyngor;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn cynnwys gwaith yr holl asiantaethau perthnasol, ac yn enwedig y rhai y tu allan i'r gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol; a<br>• sefydlu dulliau mesur i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith, fel bo modd deall effaith toriadau cyllideb a chefnogi gwaith goruchwylio a chraffu. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2015 | Helpu Pobl Hyn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? | A5 Sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb drwy:<br>• nodi sut y bydd newid gwasanaethau neu dorri cyllidebau'n effeithio ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig;<br>• mesur yr effaith bosibl a'r camau lliniaru a gyflawnir er mwyn lleihau'r effaith negyddol bosibl ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig;<br>• nodi'r niferoedd posibl y byddai'r newidiadau arfaethedig neu'r polisi newydd effeithio arnynt, drwy nodi'r effaith ar rai a chanddynt nodweddion gwarchodedig; a<br>• sicrhau bod gweithgarwch ategol, megis arolygon, grwpiau ffocws ac ymgyrchoedd gwybodaeth yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi defnyddwyr gwasanaeth i ddeall yn glir sut y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithiol arnynt.<br><br>A6 Gwella'r rheolaeth ar y Gronfa Gofal Canolraddol, ac effaith y gronfa honno drwy:<br>• bennu llinell sylfaen ar gyfer perfformiad ar ddechrau prosiectau fel bo modd barnu ynghylch effaith y prosiectau hynny dros amser;<br>• cytuno ar fformat a chwmpas adroddiadau monitro fel bo modd cynnal gwerthusiadau cymaradwy o brosiectau a ariennir yn erbyn meini prawf y gronfa, er mwyn barnu pa brosiect sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol a faint o gynlluniau sydd wedi cael eu prif ffrydio i dderbyn cyllid craidd; a<br>• gwella'r ymgysylltu a'r ystod lawn o bartneriaid er mwyn sicrhau bod amrywiaeth mor eang ag sy'n bosibl o bartneriaid yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn mentrau a rhaglenni yn y dyfodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Rhagfyr 2015 | Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden | A1 Gwella gwaith cynllunio strategol yn y gwasanaethau hamdden drwy:<br>• bennu gweledigaeth gytunedig y Cyngor ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• canolbwyntio ar sefyllfa'r Cyngor oddi mewn i ddarpariaeth chwaraeon a hamdden gymunedol ehangach yr ardal; ac<br>• ystyried y posibilrwydd o gyflenwi gwasanaethau'n rhanbarthol.<br><br>A2 Cynnal arfarniad o opsiynau er mwyn canfod y model cyflenwi mwyaf priodol yn seiliedig ar weledigaeth gytunedig y Cyngor a'i flaenoriaethu ar gyfer gwasanaethau hamdden. Dylai'r arfarniad ystyried:<br>• faint o gyllid cyfalaf a refeniw sydd ar gael dros y tair i bum mlynedd nesaf;<br>• opsiynau i wella ffocws masnachol gwasanaethau hamdden;<br>• cyfleoedd i gynyddu'r incwm a gynhyrchir a lleihau 'cymhorthdal' cynghorau;<br>• dadansoddiad cost a budd o'r holl opsiynau sydd ar gael i gyflenwi gwasanaethau hamdden yn y dyfodol;<br>• cyfraniad gwasanaethau hamdden at rôl ehangach y Cyngor o ran iechyd y cyhoedd;<br>• ymgysylltu'n well â'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod safbwyntiau ac anghenion defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr yn cael eu nodi'n glir;<br>• effaith opsiynau gwahanol ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus; a<br>• chynaliadwyedd y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Rhagfyr 2015 | Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden | A3 Sicrhau rheolaeth effeithiol ar berfformiad gwasanaethau hamdden drwy sefydlu cyfres o fesurau er mwyn galluogi swyddogion, aelodau a dinasyddion i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith. Dylai hyn drafod perfformiad yr holl Gyngor a pherfformiad cyfleusterau penodol a chynnwys:<br>• gwariant cyfalaf a refeniw;<br>• incwm;<br>• 'cymhorthdal' y Cyngor;<br>• ansawdd y cyfleusterau a'r gwasanaeth a ddarperir;<br>• bodlonrwydd cwsmeriaid;<br>• llwyddiant mentrau 'masnachol newydd';<br>• data defnydd – y nifer sy'n defnyddio'r gwasanaethau/cyfleusterau, amserau defnydd ac ati; ac<br>• effaith cyfleusterau hamdden wrth ymdrin â blaenoriaethau iechyd y cyhoedd.<br><br>A4 Gwella'r trefniadau llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol yn y gwasanaethau hamdden drwy:<br>• adrodd yn rheolaidd ar berfformiad wrth bwyllgor(au) craffu;<br>• darparu gwybodaeth gynhwysfawr i aelodau etholedig er mwyn hwyluso proses benderfynu gadarn;<br>• meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill; a<br>• defnyddio canfyddiadau adolygiadau archwilio/arolygu mewnol ac allanol i ganfod cyfleoedd i wella gwasanaethau. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru